

Gweithgaredd Dysgu

Mae'r adnodd hwn yn darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer eich myfyrwyr drwy ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n bosibl ei ddefnyddio hefyd yn ddeddf i greu eich gweithgareddau eich hun drwy ddefnyddio gwefan Casgliad y Werin Cymru.



Cam Cynnydd

3



Pwnc

Defnyddio Archifau i Ymchwilio i Hanes Lleol



Teitl

Ar Garreg Eich Drws – Ffurflenni'r Cyfrifiad *Defnyddio archifau i ymchwilio i hanes lleol*



Awdur

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a'r archifdai lleol a ganlyn:
Archifau Gwent, Archifdy Sir Benfro, Archifau Ynys Môn,
Gwasanaeth Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam.

Defnyddio Archifau i Ymchwilio i Hanes Lleol – Ffurflenni'r Cyfrifiad

Mae'r adnodd hwn yn edrych ar sut y gallwch ymchwilio i hanes eich ardal drwy ddefnyddio ffurflenni'r cyfrifiad fel math o ffynhonnell sydd ar gael mewn archifdai neu swyddfeydd cofnodion lleol a chenedlaethol yng Nghymru. Mae'n rhan o gyfres sy'n ffurfio'r blociau adeiladu sylfaenol er mwyn cael gwybod am hanes lleol.

Bwriedir i'r adnodd fod yn ganllaw i athrawon, i'w helpu i ddefnyddio ffynonellau cynradd yn yr ystafell ddosbarth. Gall yr adnodd helpu athrawon hefyd i weithio gyda'u harchifdy lleol i ddod o hyd i ffynonellau tebyg ar gyfer eu hardal eu hunain. Ei nod yw cyflwyno athrawon a myfyrwyr i'r mathau o ffynonellau archifol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer hanes lleol ac i ymgyswrtu â ffurf, golwg a chynnwys y ffynonellau.

Ar Garreg Eich Drws – Ffurflenni'r Cyfrifiad – Amcanion Dysgu

Bydd y dysgwyr yn deall:

- Rôl yr archifdai o ran darparu ffynonellau hanesyddol pwysig
- Rôl defnyddio ffurflenni'r cyfrifiad fel math o ffynhonnell hanesyddol.
- Pa fath o fywyd oedd gan bobl ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn eu hardal leol o'i gymharu â rhannau eraill o Gymru.

Bydd y dysgwyr yn gallu:

Pwnc yn y Cwricwlwm – Hanes

- Defnyddio ystod o ffynonellau, gan gynnwys TGCh, i chwilio am wybodaeth.
- Gofyn ac ateb cwestiynau perthnasol am y gorffennol.
- Adnabod gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau.
- Nodi'r gwahanol ffyrdd o gynrychioli a dehongli'r gorffennol.
- Dewis, cofnodi a threfnu gwybodaeth hanesyddol.

Fframwaith Llythrennedd

- Nodi'r prif syniadau, y prif ddigwyddiadau a'r manylion ategol.
- Datblygu dealltwriaeth o wybodaeth anghyfarwydd.
- Ymchwilio er mwyn ddatblygu dealltwriaeth lawn.
- Trefnu a dadansoddi gwybodaeth berthnasol.
- Cynllunio ac addasu arddull ysgrifennu i weddu i'r gynulleidfa ac i'r diben.
- Defnyddio strwythur sy'n briodol ar gyfer diben a ffocws yr ysgrifennu.

Ar Garreg Eich Drws – Ffurflenni'r Cyfrifiad – Sgiliau

Meddwl

- Gofyn cwestiynau.
- Ysgogi gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth flaenorol.
- Cywain gwybodaeth.
- Penderfynu ar y broses/dull a'r strategaeth.
- Pwysu a mesur tystiolaeth, gwybodaeth a syniadau.

Cyfathrebu

- Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau.
- Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth gan ddefnyddio strategaethau darllen.
- Trefnu syniadau a gwybodaeth.
- Ysgrifennu'n gywir.
- Cyfleu gwybodaeth.

TGCh

- Canfod a datblygu gwybodaeth a syniadau.
- Creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau.

Ar Garreg Eich Drws – Testun Rhagarweiniol

Cyflwyniad

Mae'r adnodd hwn yn rhan o gyfres o wyth. Mae pob adnodd yn y gyfres yn cyflwyno gwahanol fath o ffynhonnell hanesyddol. Mae'r mathau o ffynonellau hanesyddol sy'n cael eu cyflwyno yn yr adnodd hwn yn nodweddiadol o'r adnoddau y byddech yn edrych arny'n nhw wrth wneud project hanes lleol ac maen nhw i gyd ar gael yn eich archifydd lleol.

Dyma'r gwahanol fathau o ffynonellau sy'n cael eu cyflwyno:

Y Cyfrifiad

Mapiau'r Degwm a Mapiau Arolwg Ordnans
Llyfrau Log Ysgolion
Ffotograffau
Cofrestrau Plwyf - bedyddiadau a marwolaethau
Cyfeiriaduron Masnach
Catalogau Gwerthu
Papurau newydd

Mae'r ffynonellau hanesyddol enghreifftiol ym mhob adnodd yn dod o bedair ardal yng Nghymru: Caerdybi, Blaenafon, Saundersfoot a Wrecsam. Maen nhw'n deillio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Gan ddefnyddio'r rhain yn enghreifftiau, mae'n bosibl ymchwilio, creu cysylltiadau a chymariaethau, gofyn ac ateb cwestiynau, darganfod gwybodaeth am dirweddau a phobl, a'r cysylltiadau sydd rhyngddy'n nhw.

Ceir ffilm fer ar gael sy'n cyflwyno archifau ac ar gyfer pob math o ffynhonnell ceir ffilm fer arall sy'n esbonio'r math o ffynhonnell a sut y gallwn ei defnyddio i gael gwybod rhagor am hanes lleol. Mae trawsgrifiad o'r ffilmiau a'r mân-luniau yn y **nodiau i athrawon**. Mae'r delweddau maint llawn ar gael drwy ddilyn y dolenni i wefan Casgliad y Werin Cymru.

Ar gyfer pob adnodd yn y gyfres mae sawl **tasg ar-lein** ar gyfer y disgyblion sy'n defnyddio'r ffynonellau o'r pedair ardal. Mae'n bosibl gweld y ffynonellau hyn ar-lein ar wefan Casgliad y Werin Cymru drwy ddilyn y dolenni sydd ar daflenni tasgau'r disgyblion. Mae **gweithgareddau ychwanegol** hefyd sy'n awgrymu sut y gallai'r disgyblion ddefnyddio ffynonellau eu harchifdy lleol i ymchwilio i'r hanes lleol sydd ar garreg eu drws. Mae'r gweithgareddau ychwanegol hyn yn galluogi disgyblion i gymharu a gwrthgyferbynnu eu hardal hwy ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Ceir manylion archifdai lleol a chenedlaethol Cymru ar ddiwedd y nodiau i athrawon.


[Gwyllo'r ffilm – Yr Archif a'r Archifydd](#)

Ar Garreg Eich Drws – Ffilm Ragarweiniol – Ffurflenni'r Cyfrifiad

Rhagarweiniad byr ar ffilm sydd yma lle mae archifydd yn esbonio ffurflenni'r cyfrifiad fel math o ffynhonnell a sut y gallwn eu defnyddio nhw i gael gwybod rhagor am hanes lleol.

<http://www.casgliadywerin.cymru/node/432762>

Edrych ar Archifau – Ffurflenni'r Cyfrifiad



Defnyddio ffurflenni'r cyfrifiad

Cafodd cyfrifiad 1891 ei gynnal gyda'r nos ar 5 Ebrill 1891. Am y tro cyntaf, a dim ond yng Nghymru, roedd y ffurflen yn cynnwys cwestiwn am ba iaith yr oedd pobl yn ei siarad.

Rhoddir pedair enghraifft o ffurflenni'r cyfrifiad, pob un o wahanol ran o Gymru. Dylech ddefnyddio'r rhain gyda'r tasgau ar-lein i'r disgyblion. Mae pob enghraifft yn dangos un dudalen o'r cyfrifiad yn unig.

18-23 Wynne St, Caergybi, 1891
5-10 Prince St, Blaenafon, 1891
13-20 Railway St, Saundersfoot, 1891
1-5 Charles Street, Wreccsam, 1861

Awgrymir gweithgareddau ychwanegol hefyd yn yr adnodd hwn; mae'r gweithgareddau ychwanegol hyn yn dibynnu ar gael ffurflenni'r cyfrifiad o'ch archifdy lleol.

Mae'n bwysig bod y myfyrwyr yn gweithio gyda delwedd wreiddiol ffurflen y cyfrifiad yn gyntaf. Mae trawsgrifiadau o'r ffurflenni ar gael yng nghefn y nodiadau i athrawon, ac mae dolen yno hefyd at y ffurflenni hyn ar wefan Casgliad y Werin Cymru. Mae'n well cynnig y trawsgrifiad hwn i'r disgyblion ar ôl iddyn nhw ymchwilio i ddelweddau'r ffurflenni cyfrifiad gwreiddiol.

Os oes rhan o aelwyd wedi'i chofnodi ar dudalen flaenorol neu ar dudalen ddilynol yn y ffurflen wreiddiol, mae'r trawsgrifiad yn cynnwys aelodau eraill yr aelwyd honno.

Yn ystod y tasgau, defnyddiwch y dolenni i'r casgliadau sydd ar wefan Casgliad y Werin Cymru i edrych ar ffurflenni'r cyfrifiad ar-lein. Drwy gymharu ffurflenni'r cyfrifiad, mae'n bosibl cael gwybodaeth ddefnyddiol am y pethau a oedd yn debyg a'r pethau a oedd yn wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Defnyddiwch y dolenni i wefan Casgliad y Werin Cymru i weld ffurflenni'r cyfrifiad ar-lein.

Ar Garreg Eich Drws – Ffurflenni'r Cyfrifiad / Tasg 1

Beth mae'r cyfrifiad yn ei ddysgu i ni am deuluoedd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg?

Astudiwch ffurflenni'r cyfrifiad o'r casgliad isod i'ch helpu i ateb y cwestiwn hwn.

Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch tasg.

Ar gyfer pob un o'r strydoedd, edrychwch ar y berthynas rhwng y bobl sy'n byw ar yr un aelwyd. Ar beth rydych chi'n sylwi?

Allwch chi ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth bod teuluoedd yn tueddu i fod yn fwy nag y maen nhw nawr?

Beth fyddai'n digwydd pe bai rhywun oddi cartref ar noson y cyfrifiad? A oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu na fydden nhw efallai wedi cael eu cynnwys wedyn fel pobl a oedd yn byw yn y cyfeiriad hwnnw?

Casgliad ar gyfer Tasg 1

[Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru](#)

Ar Garreg Eich Drws – Ffurflenni'r Cyfrifiad / Tasg 2

Beth mae'r cyfrifiad yn ei ddysgu i ni am faint tai ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg?

Astudiwch ffurflenni'r cyfrifiad o'r casgliad isod.

Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch tasg.

Roedd 6-8 Princes Street ym Mlaenafon i gyd yn dai bychain iawn gyda dim ond 3 ystafell. Faint o bobl oedd yn byw yn y tai 3 ystafell hyn? Sut y byddai'r teulu Waters yn llwyddo i fyw mewn tŷ mor fach? A oes teuluoedd eraill sy'n byw mewn tai bychain?

Edrychwch ar weddill ffurflenni'r cyfrifiad. A oes rhai o'r teuluoedd yn byw mewn tai mwy? Pam tybed?

Casgliad ar gyfer Tasg 2

[Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru](#)

Ar Garreg Eich Drws – Ffurflenni'r Cyfrifiad / Tasg 3

Beth mae'r cyfrifiad yn ei ddysgu i ni am waith a swyddi ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg?

Astudiwch ffurflenni'r cyfrifiad o'r casgliad isod.

Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch tasg.

Beth mae'r swyddi'n ei awgrymu am y prif ddiwydiannau ym Mlaenafon yn 1891? A oes rhywbeth yn debyg rhwng y rhain â'r swyddi sydd yn Saundersfoot, Wrecsam a Chaergybi?

Mae dwy fenyw yn cael eu rhestru'n Benteulu - allwch chi esbonio hyn?

Allwch chi weld tua faint oedd oed merched pan oedden nhw'n gorffen eu haddysg? A oedd y sefyllfa yr un fath i'r bechgyn?

Casgliad ar gyfer Tasg 3

[Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru](#)

Ar Garreg Eich Drws – Ffurflenni'r Cyfrifiad / Tasg 4

Beth mae'r cyfrifiad yn ei ddysgu i ni am bobl yn symud o gwmpas ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg?

Astudiwch ffurflenni'r cyfrifiad o'r casgliad isod.

Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch tasg.

Beth mae'r manau geni yn ei ddweud wrthym pa mor bell y byddai rhai pobl yn teithio yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg?

Pam y byddai rhai o'r bobl hyn wedi symud i Gaergybi, Saundersfoot, Wrecsam neu Flaenafon?

Beth mae'r manau geni yn ei ddweud wrthym am y teulu Peters ac am sut y gwnaethon nhw symud o gwmpas y wlad?

A oes teuluoedd eraill ag aelodau sydd wedi symud cartref ar ôl iddyn nhw gael eu geni?

Casgliad ar gyfer Tasg 4

[Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru](#)

Ar Garreg Eich Drws – Ffurflenni'r Cyfrifiad / Tasg 5

Beth mae'r cyfrifiad yn ei ddysgu i ni am iaith pobl ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg?

Astudiwch ffurflenni'r cyfrifiad o'r casgliad isod.

Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch tasg.

Mae'r golofn iaith yn dweud wrthym faint o Gymraeg oedd yn cael ei siarad yn y trefi hyn ym 1891. Ble ar y pedair stryd yr oeddech fwyaf tebygol o glywed y Gymraeg yn cael ei siarad? Ydych chi'n meddwl bod y sefyllfa yr un fath heddiw?

Sut allwch chi esbonio'r gwahaniaethau rhwng y pedair stryd ym 1891?

Ydy'r teuluoedd lle mae'r ddau riant yn siarad yr un iaith yn fwy tebygol neu'n llai tebygol o siarad yr iaith honno â'u plant? Beth sy'n digwydd pan fydd dim ond un rhiant yn siarad Cymraeg?

Casgliad ar gyfer Tasg 5

[Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru](#)

Da iawn chi, rydych wedi gorffen eich tasgau ac wedi casglu llawer o wybodaeth gan ddefnyddio ffurflenni'r cyfrifiad.

Dyma'ch cyfle chi i gael gwybod rhagor.

Gallwch ymweld â'ch swyddfa cofnodion neu'ch archifdy lleol neu ofyn iddyn nhw am enghreifftiau o ffurflenni'r cyfrifiad ar gyfer eich ardal chi.

Cerddwch drwy eich ardal leol, eich pentref, eich stryd fawr ac ati, i weld a allwch weld unrhyw strydoedd neu adeiladau sydd wedi'u nodi ar ffurflenni'r cyfrifiad ac sy'n dal yno o hyd. Tynnwch lun o'r un strydoedd heddiw. Gallech ddatblygu arddangosfa ystafell ddosbarth o ffurflenni cyfrifiad lleol ac, os yw'r adeiladau yno o hyd, sut olwg sydd arnyn nhw nawr?

Pa gwestiynau newydd fydddech chi'n hoffi cael atebion iddyn nhw?

Gallwch wneud rhagor o ymchwil ar lein, yn eich archifdy, eich swyddfa cofnodion a'ch amgueddfa leol.

Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy neu'ch swyddfa cofnodion leol yn www.archiveswales.org.uk/

Gallwch ddod o hyd i'ch amgueddfa leol yn <http://www.culture24.org.uk/places+to+go/wales> (Saesneg yn unig)

Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn www.llgc.org.uk/cy/

Casgliad y Werin Cymru yn www.casgliadywerincymru.co.uk

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn www.cbhc.gov.uk

Coflein yn www.coflein.gov.uk

Gweithgareddau Ychwanegol – Bywyd Teuluol

Gan ddefnyddio ffurflenni'r cyfrifiad o'ch archifdy lleol, cymharwch sut mae bywyd teuluol yn eich ardal leol yn wahanol i'r hyn sydd i'w weld yn yr ardaloedd eraill ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

GWEITHGAREDDAU DYSGU

Trafodaeth

Edrychwch ar ffurflenni'r cyfrifiad o'ch archifdy lleol. Beth mae'r rhain yn ei ddweud wrthym am fywyd teuluol a sut mae hynny'n cymharu â bywyd teuluol yn yr ardaloedd eraill yng Nghymru? Sut mae bywyd teuluol fel mae'n cael ei ddarlunio yn y cyfrifiad ar gyfer eich ardal chi'n wahanol i fywyd y teulu heddiw?

Edrych ar ffurflenni'r cyfrifiad – ysgrifennu eich cyfrifiad eich hun

Ar ôl astudio ffurflenni'r cyfrifiad ar gyfer eich ardal chi, gallai pob disgybl neu grŵp o ddisgyblion ysgrifennu cyfrifiad cyfoes ar gyfer disgyblion y dosbarth a'u teuluoedd.

Dyma rai o'r pynciau y gallech eu trafod:

- Y categorïau maen nhw'n dymuno'u cynnwys yn y cyfrifiad. Pam maen nhw wedi dewis y categorïau hyn?
- Pa gwestiynau y byddai angen iddyn nhw eu gofyn i bob disgybl er mwyn cael y wybodaeth sydd ei hangen.
- Beth am blant sy'n absennol o'r ysgol y diwrnod hwnnw? A ddylid eu cynnwys nhw?

Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:

- Edrychwch ar ffurflenni'r cyfrifiad yng [Nghasgliad 1](#). Faint o wahanol genedlaethau sydd yn y pedair stryd rydym yn edrych arny'n nhw?
- Edrychwch ar y cyfrifiad ar gyfer eich ardal chi. Faint o wahanol genedlaethau sydd yn y strydoedd yn eich ardal chi?

Gweithgareddau Ychwanegol – Tai

Gan ddefnyddio ffurflenni'r cyfrifiad o'ch archifdy lleol, cymharwch sut mae tai yn eich ardal leol yn wahanol i'r tai yn yr ardaloedd eraill ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

GWEITHGAREDDAU DYSGU

Trafodaeth

Edrychwch ar ffurflenni'r cyfrifiad o'ch archifdy lleol. Faint o bobl oedd yn byw yn y tai? Pa mor fawr neu fach oedd y tai?

Sut mae hyn yn cymharu â'r ardaloedd eraill ac â'r sefyllfa heddiw?

Edrych ar dai ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg – ysgrifennu erthygl am fywyd mewn tŷ ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg

Ar ôl astudio ffurflenni'r cyfrifiad o'r archif, bydd pob disgybl yn paratoi erthygl am sut fywyd oedd gan bobl ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac ymhle y bydden nhw wedi byw. Gall hyn gynnwys ffotograff archif o'r math o dŷ lle y bydden nhw wedi byw neu gallen nhw wneud llun o'r tŷ. Gallen nhw hefyd gynnwys mapiau Arolwg Ordnans o'r archifdy lleol yn darlunio'u stryd a'u hardal.

Gallai'r disgyblion gynnwys y wybodaeth ganlynol yn eu herthygl:





- **Eu cyfeiriad.**
- **Disgrifiad cryno o'r ardal lle maen nhw'n byw.**
- **Pwy sy'n byw yn y tŷ? Faint yw eu hoed a beth yw eu gwaith?**
- **Cynllun o'r tu mewn i'r tŷ.**
- **Map o'r ardal leol a'r strydoedd.**

Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:

┆ Edrychwch ar ffurflenni'r cyfrifiad yng [Nghasgliad 1](#). Allwch chi weld sut yr oedd y teulu Waters ym Mlaenafon a'r teulu Samuel-Stuart yng Nghaergybi yn llwyddo i fyw mewn lle mor fach?

┆ Beth am y teuluoedd yn eich ffurflenni cyfrifiad lleol? Ydych chi wedi dod o hyd i unrhyw deuluoedd mawr iawn yn byw mewn tai bychain? Beth oedd y teuluoedd hyn yn ei wneud? Cymharwch nhw â'r teuluoedd yn y cyfrifiad a oedd yn byw mewn tai mwy. Pa wahaniaethau rydych chi'n eu gweld?

Gwnewch arddangosfa o'ch ymchwil i greu casgliad ysgol ar wefan Casgliad y Werin Cymru.



Gweithgareddau Ychwanegol – Gwaith a Swyddi

Gan ddefnyddio ffurflenni'r cyfrifiad o'ch archifdy lleol, cymharwch sut mae gwaith a swyddi pobl yn eich ardal leol yn wahanol i'r hyn sydd i'w weld yn yr ardaloedd eraill ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

GWEITHGAREDDAU DYSGU

Trafodaeth

Edrychwch ar ffurflenni'r cyfrifiad o'ch archifdy lleol. Sut mae gwaith a swyddi pobl yn wahanol i'r rhai sydd yn yr ardaloedd eraill ac i'r swyddi sydd ar gael heddiw? Allwch chi restru'r swyddi i gyd? Pa rai sy'n dal yn gyffredin heddiw? A oes rhai sydd ddim yn bodoli rhagor?

Edrych ar waith a swyddi ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg – ymchwilio i swyddi lleol

Ar ôl astudio ffurflenni'r cyfrifiad, bydd pob disgybl neu bob grŵp o ddisgyblion yn ymchwilio i waith a swyddi a oedd yn gyffredin yn eu hardal nhw. Gallan nhw hefyd ddefnyddio cyfeiriaduron masnach a lluniau o'u harchifdy lleol i'w helpu gyda'u hymchwilio.

Dyma rai o'r pynciau y gallech eu trafod:

- Y mathau o swyddi.
- Sut roedd y swyddi hyn yn cymharu? A oedd dynion a menywod yn cael eu cyflogi i wneud y swydd hon? A oedd plant yn cael eu cyflogi?
- Faint o arian fyddai pobl yn ei ennill?
- Pa fath o amodau gwaith fyddai gan bobl a oedd yn gwneud pob un o'r swyddi hyn?

Dyma ychydig o weithgareddau dilynol eraill posibl:

- Edrychwch ar ffurflenni'r cyfrifiad ar gyfer Blaenafon yng [Nghasgliad 1](#). Pan fyddai merched yn gadael yr ysgol, pa fathau o gyfleoedd oedd ar gael iddyn nhw yn 1891? Ar sail y dystiolaeth brin sydd ar gael, allwch chi benderfynu a oedd y sefyllfa yr un fath yn Saundersfoot neu yng Nghaergybi neu yn eich ardal chi?
- Pa dystiolaeth sydd bod menywod yn gweithio cyn iddyn nhw briodi a'u bod nhw, mae'n debyg, yn dal i weithio ar ôl iddyn nhw briodi er nad oedd y cyfrifiad fel rheol yn cofnodi hyn?
- Edrychwch ar ffurflenni cyfrifiad ar gyfer Saundersfoot yng [Nghasgliad 1](#). Mae tair gwraig weddw'n byw yn Railway Street. Allwch chi weld sut y byddai gwagedd gweddw'n cynnal eu hunain yn y dyddiau cyn bod pensiwn ar gael i'r henoed? Edrychwch ar enghreifftiau o Gaergybi a Blaenafon i weld sut y byddai gweddwon a menywod sengl hŷn yn llwyddo i'w cynnal eu hunain yn y fan honno. Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol? Sut mae hyn yn cymharu â'ch ardal chi yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg?

Gweithgareddau Ychwanegol – Pobl yn Symud o Le i Le

Gan ddefnyddio ffurflenni'r cyfrifiad o'ch archifdy lleol, cymharwch sut mae patrwm symud pobl yn eich ardal leol yn wahanol i'r patrwm yn yr ardaloedd eraill ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

GWEITHGAREDDAU DYSGU

Trafodaeth

Edrychwch ar ffurflenni'r cyfrifiad o'ch archifdy lleol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cymharwch fannau geni'r unigolion â'u cyfeiriadau. Allwch chi weld unrhyw dystiolaeth bod pobl yn symud o le i le? Sut mae hyn yn cymharu â'r ardaloedd eraill? Sut mae hyn yn cymharu â'r sefyllfa heddiw? Pam fyddai pobl yn symud tybed?

Edrych ar batrwm symud pobl ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg – ymchwilio i batrwm symud disgyblion yn y dosbarth.

Ar ôl astudio ffurflenni'r cyfrifiad, bydd pob disgybl neu grŵp o ddisgyblion yn ymchwilio i symudiadau disgyblion yn y dosbarth. Ydy eu cyd-ddisgyblion wedi symud cartref yn ystod eu plentyndod? Ble y cawson nhw eu geni? Ble y cafodd eu rhieni eu geni? Ble y cafodd eu neiniau a'u teidiau eu geni?

Dyma rai o'r pynciau y gallech eu trafod:

- Enw a man geni'r disgybl.
- Ble mae'r disgybl yn byw nawr?
- Sawl gwaith mae'r disgybl wedi symud?
- Pam mae pobl wedi symud?
- O ble mae rhieni'r disgyblion yn dod? Beth am aelodau eraill y teulu – modrybedd, ewythrod, brodyr a chwiorydd hŷn?
- Yna, gallai'r disgyblion gymharu eu canfyddiadau â'r manylion sydd ar gyfrifiad diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Beth am ffurflenni cyfrifiad eraill? Allwch chi ddod o hyd i rai ar wefan Casgliad y Werin Cymru?

Dyma ychydig o weithgareddau dilynol eraill posibl:

- Edrychwch ar ffurflenni'r cyfrifiad yng [Nghasgliad 1](#). Os edrychwch ar fannau geni'r bobl sy'n byw rhwng 5 a 10 Prince Street ym Mlaenafon, ar beth rydych chi'n sylwi? Pam roedd y lojars yn aros yn y Victoria Hotel tybed? Sut mae hyn yn cymharu â'r ardaloedd eraill ac â'ch ardal chi?

Gweithgareddau Ychwanegol – Yr Iaith yr Oedd Pobl yn ei Siarad

Gan ddefnyddio ffurflenni'r cyfrifiad o'ch archifdy lleol, cymharwch sut mae'r iaith a oedd yn cael ei siarad yn eich ardal leol yn wahanol i'r iaith a oedd yn cael ei siarad yn yr ardaloedd eraill ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

GWEITHGAREDDAU DYSGU

Trafodaeth

Edrychwch ar ffurflenni'r cyfrifiad o'ch archifdy lleol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Sut mae'r iaith yn wahanol i'r iaith yn yr ardaloedd eraill a'r ieithoedd y byddwch chi'n eu clywed heddiw yn eich ardal leol?

Edrych ar batrwm symud pobl ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg – ymchwilio i iaith disgyblion yn y dosbarth.

Ar ôl astudio ffurflenni'r cyfrifiad, bydd pob disgybl neu grŵp o ddisgyblion yn ymchwilio i iaith disgyblion yn y dosbarth. Pa ieithoedd mae eu cyd-ddisgyblion yn eu siarad? Ydyn nhw wedi dysgu unrhyw ieithoedd nad yw eu teulu'n eu siarad?

Dyma rai o'r pynciau y gallech eu trafod:

- Enw a man geni'r disgybl.
- Pa ieithoedd mae'r disgybl yn eu siarad?
- Pa bryd y gwnaethon nhw ddysgu'r ieithoedd hyn?
- Pa ieithoedd mae eu rhieni'n eu siarad? Beth am aelodau eraill eu teulu? Neiniau a theidiau, modrybedd, ewythrod?
- Sut mae'r canlyniadau hyn yn cymharu â'r rhai sydd yng nghyfrifiad diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Beth am ffurflenni cyfrifiad ardaloedd eraill? Allwch chi ddod o hyd i ffurflenni cyfrifiad eraill ar wefan Casgliad y Werin Cymru?

Dyma ychydig o weithgareddau dilynol eraill posibl:

- Edrychwch ar ffurflenni'r cyfrifiad yng [Nghasgliad 1](#). Ar aelwyd y teulu Llewelyn a'r teulu Waters ym Mlaenafon, dim ond un rhiant sy'n siarad Cymraeg a Saesneg, ond dim ond Saesneg y mae pob un o'u plant yn ei siarad. Allwch chi esbonio pam a beth mae hyn yn ei ddweud wrthyfch am y defnydd o'r Gymraeg ar y pryd?
- Ai o Saundersfoot ei hun y mae'r tri sy'n siarad Cymraeg a Saesneg yn dod? A oes tystiolaeth nad oedd y rhieni, fel ym Mlaenafon, yn siarad Cymraeg â'u plant?

Ar Garreg Eich Drws – Ffurflenni'r Cyfrifiad / Nodiadau i Athrawon

Mae ffurflenni'r cyfrifiad yn gallu rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ni am hanes ein hardal leol.

Dyma drawsgrifiad o'r ffilm sy'n esbonio sut mae defnyddio ffurflenni'r cyfrifiad gan ddefnyddio un ardal yn enghraifft.

Beth yw'r cyfrifiad?

Administrative County of <i>Pembrokeshire</i>		The undermentioned Houses are situate within the Boundaries of the													Page 77	
Civil Parish of <i>A. H. H. H.</i>		Municipal Borough of <i>A. H. H. H.</i>		Municipal Ward of <i>A. H. H. H.</i>		Urban Sanitary District of <i>A. H. H. H.</i>		Town or Village or Hamlet of <i>A. H. H. H.</i>		Rural Sanitary District of <i>A. H. H. H.</i>		Parliamentary Borough or Division of <i>A. H. H. H.</i>		Ecological Parish or Division of <i>A. H. H. H.</i>		
1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	16	17
No. of Schedule	ROAD, STREET, &c. and No. of HOUSES	No. of Houses	No. of Houses	No. of Houses	NAME and Surname of each Person	RELATION to Head of Family	CON-DITION as to Marriage	AGE last Birthday of	PROFESSION or OCCUPATION	WHERE BORN	(1) Deaf- (2) Dumb- (3) Blind (4) Lunatic, Idiote or Imbecile	Language Spoken				
1515	13 Railway Street	1			Henry J. Read Ada Read Elizabeth Read Bertha Read Christina Read Margaret Read Esther Read Bertha Read Reginald Read	Head Wife Daughter Daughter Daughter Daughter Daughter Daughter Son	M M F F F F F F M	70 64 70 70 74 74 74 74 74	Bookbinder Widow before marriage Widow Widow Widow Widow Widow Widow Scholar	Wales Wales Wales Wales Wales Wales Wales Wales Wales		English English English English English English English English English				
1516	14 Railway Street	1			John Read William Read Margaret Read Thomas J. M. Read Thomas J. M. Read	Head Wife Daughter Son Son	M M F M M	74 74 74 74 74	Cart driver Widow Widow Widow Widow	Wales Wales Wales Wales Wales		English English English English English				
1517	15 Railway Street	1			Thomas J. M. Read Mary Read Margaret Read Elizabeth M. Read Margaret Read Elizabeth Read Margaret Read Elizabeth Read	Head Wife Daughter Daughter Daughter Daughter Daughter Daughter	M M F F F F F F	74 74 74 74 74 74 74 74	Widow Widow Widow Widow Widow Widow Widow Widow	Wales Wales Wales Wales Wales Wales Wales Wales		English English English English English English English English				
1518	16 Railway Street	1			Elizabeth Read Margaret Read William Read Thomas Read Elizabeth Read Margaret Read Elizabeth Read	Wife Wife Son Son Wife Wife Wife	M M M M M M M	74 74 74 74 74 74 74	Widow Widow Widow Widow Widow Widow Widow	Wales Wales Wales Wales Wales Wales Wales		English English English English English English English				
1519	17 Railway Street	1			William Read Thomas Read Elizabeth Read Margaret Read Elizabeth Read Margaret Read Elizabeth Read	Wife Wife Wife Wife Wife Wife Wife	M M M M M M M	74 74 74 74 74 74 74	Widow Widow Widow Widow Widow Widow Widow	Wales Wales Wales Wales Wales Wales Wales		English English English English English English English				
1520	18 Railway Street	1			Thomas Read Margaret Read Elizabeth Read Margaret Read Elizabeth Read Margaret Read Elizabeth Read	Head Wife Wife Wife Wife Wife Wife	M M M M M M M	74 74 74 74 74 74 74	Widow Widow Widow Widow Widow Widow Widow	Wales Wales Wales Wales Wales Wales Wales		English English English English English English English				
1521	19 Railway Street	1			Thomas Read Margaret Read Elizabeth Read Margaret Read Elizabeth Read Margaret Read Elizabeth Read	Head Wife Wife Wife Wife Wife Wife	M M M M M M M	74 74 74 74 74 74 74	Widow Widow Widow Widow Widow Widow Widow	Wales Wales Wales Wales Wales Wales Wales		English English English English English English English				
1522	20 Railway Street	1			Thomas Read Margaret Read Elizabeth Read Margaret Read Elizabeth Read Margaret Read Elizabeth Read	Head Wife Wife Wife Wife Wife Wife	M M M M M M M	74 74 74 74 74 74 74	Widow Widow Widow Widow Widow Widow Widow	Wales Wales Wales Wales Wales Wales Wales		English English English English English English English				
8	Total of Houses and of Tenements with less than Five Rooms	1			Total of Males and Females...				11	18						

Dolen i ddelwedd o'r cyfrifiad a thrawsgrifiad o'r cyfrifiad

Mae'r cyfrifiad, sy'n aml yn cael ei alw'n ffurflen cyfrifiad, yn ffordd o gael gwybodaeth am bobl o bob oed sy'n byw mewn ardal benodol ar noson benodol, sef noson y cyfrifiad.

Mae cyfrifiad wedi'i gynnal yng Nghymru a Lloegr er 1801 ac eithrio ym 1941 pan oedd Prydain yn ymladd yn yr Ail Ryfel Byd. Mae'r cyfrifiad yn cael ei gynnal bob deng mlynedd. Nid oedd y cyfrifiadau cynnar rhwng 1801 ac 1831 mor fanwl â'r rhai o 1841 ymlaen ac roedd ganddyn nhw fwy o ddiddordeb o lawer mewn cael gwybod pethau fel: faint o dai a oedd yn rhai lle roedd pobl yn byw ynddyn nhw a faint ohonyn nhw oedd yn wag; faint o bobl oedd yn gweithio ym maes amaethyddiaeth neu ym myd masnach; a faint o fedyddiadau, priodasau a chladdediadau a oedd wedi'u cynnal. Nid oedd y cyfrifiadau hyn yn cofnodi enwau unigol y bobl felly. Ond, ar ôl hyn, dechreuodd ffurflenni'r cyfrifiad restru enwau pobl a hefyd roi mwy o fanylion amdanyh nhw. Oherwydd natur bersonol y wybodaeth sydd yn y cyfrifiad, bydd manylion llawn y ffurflenni'n cael eu cadw'n gyfrinachol am 100 mlynedd. Mae hyn yn golygu mai'r cyfrifiad diweddaraf y gallwn edrych arno ar hyn o bryd yw cyfrifiad 1911.

Mae'r ffurflenni cyfrifiad gwreiddiol yn cael eu cadw yn yr Archifdy Cenedlaethol yn Llundain, ond mae gan lawer o wasanaethau archifau awdurdodau lleol gopiâu o'r ffurflenni y gallwch edrych arnyh nhw yn eu hystafelloedd chwilio.

Er mwyn helpu pobl i ddefnyddio ffurflenni'r cyfrifiad mae mynegeion o gyfenwau wedi'u paratoi. Mae hyn yn help i esbonio pam mae cymaint o haneswyr teulu'n defnyddio'r cofnodion hyn: maen nhw'n helpu pobl i olrhain eu hynafiaid. Serch hynny, mae'n bosibl defnyddio'r cyfrifiad i ymchwilio i lawer mwy o bynciau, fel y mae ein henghrafft o ffurflen cyfrifiad 1891 ar gyfer Saundersfoot yn ei ddangos.

Pa wybodaeth y gallwn ni ddod o hyd iddi ar ffurflen cyfrifiad?

Fel y gallwn ei weld o'n henghrafft ar y dudalen flaenorol, mae'r ffurflen cyfrifiad yn rhestru enwau pobl ond mae'r wybodaeth wedi'i threfnu yn ôl lle (y darn ar hyd pen uchaf y ffurflen), ac yna yn ôl stryd (colofn 2) ac yn olaf, yn ôl adeilad (colofn 3). Er mai ffurflen wedi'i hargraffu yw hi, mae wedi cael ei llenwi â llaw. Weithiau, gall fod yn anodd darllen y ffurflen os yw llawysgrifen y sawl oedd yn ei llenwi'n wael, ac fel y gallwch weld yn yr enghrafft hon, mae marciau eraill wedi cael eu hychwanegu pan gafodd y ffurflen ei gwirio, gan ei gwneud yn fwy anodd byth ei darllen. Hefyd, byddai pobl yn gwneud camgymeriadau weithiau wrth lenwi'r ffurflenni, gan arwain at gamsillafu enwau neu gallai'r enw anghywir hyd yn oed gael ei gofnodi.

Os edrychwn ar golofn 2, y cyfeiriad, gallwn ddysgu rhywbeth ar unwaith am orffennol Saundersfoot. Enw'r stryd yw "Railway Street". Nid yw enw'r stryd yn bod rhagor oherwydd cafodd ei hailenwi'n "The Strand", ond adeg y cyfrifiad yn 1891, ei henw oedd Railway Street. Roedd Saundersfoot yn rhan o'r diwydiant glo ac roedd rheilffordd yn rhedeg ar hyd Railway Street! Erbyn heddiw, mae Saundersfoot yn fwy adnabyddus fel atyniad i dwristiaid ac nid fel man lle mae diwydiant glo a masnachu ar y môr yn ffynnu.

Ond, os edrychwn ni ar golofn 11, gwelwn fod y swyddi sy'n cael eu rhestru yn adlewyrchu hanes masnachu Saundersfoot. Dywedir mai saer ac adeiladwr llongau yw Harry J. Read ac mai glöwr yw John Rees. Gweddw glöwr yw Elizabeth Rees (62 oed) sy'n rhoi rhyw awgrym i ni am beryglon bod yn löwr.

Mae'r cyfrifiad hefyd yn dangos i ni pa mor fawr oedd rhai teuluoedd a pha mor gyfyng weithiau oedd eu hamodau byw. Roedd 9 o bobl yn byw yn 13 Railway Street: y 2 riant a 7 o blant rhwng 19 a 3 oed. Roedd Eleanor Read, yn 16 oed, eisoes yn gweithio fel clerch Telegraff a Swyddfa Bost, ac mae'n bosibl ei bod hi'n eithaf ifanc i fod mewn swydd o'r fath.

Beth arall mae'r enghrafft hon yn ei ddangos i ni?

Os edrychwn ar golofn 15, gwelwn ar y dudalen hon o'r ffurflen nad oedd y bobl a oedd yn byw yn Saundersfoot o leiaf wedi symud ymhell iawn yn ystod eu hoes. Roedd y rhan fwyaf ohonyn nhw wedi'u geni naill ai yn Saundersfoot neu yn y cyffiniau. Mae hyn yn awgrymu nad oedd angen iddyn nhw symud o gwmpas i ddod o hyd i waith (sy'n wahanol iawn i'r sefyllfa heddiw) ac mae'r swyddi sydd wedi'u rhestru yn dangos y gwahanol fathau o waith a oedd yn Saundersfoot: er enghrafft gwniadwraig, golchwraig, gof, llongwr, cynorthwy-ydd groser, a labrwr. Mae'r ffaith hon hefyd yn awgrymu bod Saundersfoot yn gymharol hunangynhaliol: nid oedd angen i bobl Saundersfoot fynd i dref neu bentref arall i brynu nwyddau a chael trwsio pethau, er enghrafft.

Beth am iaith y cyfathrebu? Cyfrifiad 1891 oedd y cyntaf i ofyn i bobl am yr ieithoedd roedden nhw'n eu siarad. Mae hyn wedi'i gofnodi yng ngholofn 17. Os oedd pobl yn siarad Saesneg yn unig, roedden nhw i fod i ysgrifennu "*English*"; os oedden nhw'n siarad Cymraeg yn unig, roedden nhw'n ysgrifennu "*Welsh*". Os oedden nhw'n gallu siarad y ddwy iaith, roedden nhw i fod i roi "*both*" yn y golofn. Fel y gwelwn yn yr enghrafft hon, ychydig iawn o bobl oedd yn siarad Cymraeg ac roedd pawb yn siarad Saesneg. Roedd dau o'r tri a allai siarad Cymraeg yn dod yn wreiddiol o ardaloedd lle'r oedd y Gymraeg yn iaith fwy cyffredin. Mae hyn yn awgrymu mai Saesneg oedd yr iaith gryfaf yma ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ar Garreg Eich Drws – Ffurflenni'r Cyfrifiad / Nodiadau i Athrawon

Felly, yn yr un enghraifft hon, rydym wedi dysgu am orffennol glofaol Saundersfoot a'i hanes morwrol; maint yr aelwydydd a phwy oedd yn byw yn y tai; rhai o'r crefftau a'r swyddi yr oedd pobl yn eu gwneud; pa mor bell roedden nhw'n symud o'u man geni; a pha mor gryf oedd y Gymraeg yng Nghymru Oes Fictoria.

Mae'r wybodaeth hanesyddol hon i gyd wedi dod o un ffynhonnell hanesyddol yn unig: y cyfrifiad.

Gallwch ofyn i'ch archifyd lleol am gopiâu o ffurflenni cyfrifiad 1891 ar gyfer eich ardal chi a gweld sut mae'r rheini'n cymharu â'r rhain.

Trawsgrifiadau ar gyfer Ffurflenni'r Cyfrifiad

Mae trawsgrifiadau ar gael ar gyfer y canlynol:

18-23 Wynne St, Caergybi, 1891
 5-10 Prince St, Blaenafon, 1891
 13-20 Railway St, Saundersfoot, 1891
 1-5 Charles Street, Wrecsam, 1861

Trawsgrifiad o Gyfrifiad Caergybi 1891, 18-23 Wynne Street

SCHEDULE	ROAD, ST etc	NO or NAME	No. Rooms if <5	SURNAME	1ST NAME	RELATION TO	CONDITION	SEX	AGE	OCCUPATION	BORN	CITY/TOWN	1. Deaf & Dumb, 2. Blind, 3. Lunatic etc	LANGUAGE	
54	Wynne Street	No.18	4	Leonard	John		Single	Male	73	Tramp	Ireland			English	
				Morgan	Edward		Do	Male	56	Do	Shropshire			Both	
				McLester	Barny		Widower	Male	60	Do	Ireland			English	
				Mutrey	Charles		Single	Male	45	Do	Ireland			English	
				Caffrey	James		Do	Male	26	Do	America			English	
65	Do	No.19	4	Samuel	Mary	Head	Widow	Female	69	Lodginghouse Keeper	Anglesea	Llangefni		Welsh	
				Stewart	Catherine	Daughter	Married	Female	31		Do	Holyhead		Welsh	
				Stewart	William	Gr Son		Male	12		Do	Do		Welsh	
				Do	Robert J	Do		Male	9		Do	Do		Welsh	
				Do	Maggie A	Gr. Daughter		Female	4		Do	Do		Welsh	
				Do	James	Gr. Son		Male	2		Do	Do		Welsh	
				Do	Mary E	Gr Daughter		Female	1 month		Do	Do		Welsh	
66	Do	No.20	4	Samuel	James	Adopted Son	Single	Male	22	Boiler Maker	Do	Do		Welsh	
				Hughes	William	Head	Married	Male	29	Plasterer	Do	Do		Welsh	
				Do	Hughes	Ellen	Wife	Do	Female	25		Do	Do		Welsh
				Do	William J	Son		Male	6		Do	Do		Welsh	
				Do	Hughes	Maggie	Daughter		Female	4		Do	Do		Welsh
67	Do	No.21	4	Hughes	Lydia	Do		Female	2		Do	Do		Welsh	
				Peers	William H	Head	Married	Male	41	Coach Painter	Cheshire	Chester		English	
				Peers	Sarah M	Wife	Do	Female	40		Kent	Maidstone		English	
				Peers	Mary E	Daughter	Single	Female	13		Hampshire	Portsmouth		English	
				Peers	Henry E	Son		Male	10		Kent	Dover		English	
68	Do	No. 22	4	Peers	William G	Do		Male	5		Anglesea	Holyhead		English	
				Peers	Victor H	Do		Male	1		Do	Do		English	
				Jones	Ruth	Wife	Married	Female	36		Caernarvonshire	Caernarvon		Welsh	
				Jones	Mary J	Daughter		Female	7 months		Anglesea	Holyhead			
				Williams	Anne	Visitor	Single	Female	55		Do	Do		Welsh	
69	Do	No.23	4	Parry	Absalom	Head	Married	Male	36	General Labourer	Do	Do		Both	
				Parry	Ellen	Wife	Do	Female	29		Do	Llanerchymedd		Welsh	
				Parry	John R	Son		Male	8		Do	Holyhead		Welsh	
				Parry	Lewis	Son		Male	4		Do	Llanerchymedd		Welsh	
				Parry	William H.	Son		Male	2		Do	Holyhead		Welsh	
	(Continued)			Williams	Lewis	Brother-in-law	Single	Male	27	Taylor	Do	Llanerchymedd		Both	

Ar Garreg Eich Drws – Ffurflenni'r Cyfrifiad / Nodiadau i Athrawon

Trawsgrifiad o Gyfrifiad Wrecsam 1861, 1-5 Charles Street

No. of Schedule	Road, Street, &co, and No or Name of House	Houses		Name and Surname of each Person	Relation to Head of Family	Condition	Age of		Rank, Profession, or Occupation	Where Born
		In-habited	Un-inhabited (UI or building (B))				Males	Females		
1	1 Charles St	1		Daniel Humphreys	Head	Mar	39		Shoemaker	Denbighshire Wrexham
				Robert do [ditto]	Brother	Un	37		Tailor	do
				John do	do	Un	32		Joiner	do
				Elizabeth Bell	Visitor	Mar		58	Farmer's Wife	Ireland
2	2 Charles St	1		John Powell	Head	Mar	36		Confectioner	Denbighshire Wrexham
				Martha do	Wife	Mar		40		Denbighshire Isacoed
				Ester Pearson	Niece	Un		18	Confectioner's Assistant	Flintshire Bangor
				Samuel Woolliscroft	Apprentice	Un	17		Confectioner's Apprentice	Flintshire Hawarden
3	3 Charles St	1		John Wallis	Head	Mar	38		Butter Merchant	Northamptonshire
				Ann do	Wife	Mar		30		Lincolnshire
				Charles do	Son		10		Scholar	Northamptonshire
				John do	Son		1			Cumberland
				Mary Ann do	Daur			2 mo		Denbighshire Wrexham
				Elizabeth Parslow	Serv	Un		19	House Servant	do
				Griffith Griffiths	Head	Mar	37		Baker	do Brymbo
4	4 Charles St	1		Ann do	Wife	Mar		33		do
				William G do	Son		8		Scholar	do
				John J do	Son		6		do	do
				Charles H do	Son		8 mo		do	do
271	5 Charles St	1		Ezekiel Mason	Head	Mar	39		Clothier	Lincolnshire
				Jane do	Wife	Mar		33		do
				Walter do	Son		10		Scholar	do
				Alfred C do	Son		5		Do	do
				Clara I do	Daur			1		Denbighshire Wrexham
				Ellen Williams	Serv	Un		22	House Servant	Denbighshire Llangollen

Trawsgrifiad o Gyfrifiad Blaenafon 1891, 217-223 Prince Street

SCHEDULE	ROAD, ST etc	NO or NAME	HOUSES	No of Rooms	SURNAME	1ST NAME	RELATION TO	CONDITION	SEX	> 16	OCCUPATION	BORN	CITY/TOWN	1. Deaf & Dumb, 2. Blind, 3. Lunatic etc	LANGUAGE
217	Prince Street	5 (Victoria Hotel)	inhabited		Price	Gwen	Head	S	F	74	Hotel Keeper	Carmarthen	Mottrey		Both
					Williams	Rachel A	Assistant	S	F	30	Barmaid	Monmouthshire	Maescywmmer		Both
continued from previous page															
217	Prince Street	5 (Victoria Hotel)	inhabited		Williams	Mary J	Servant	S	F	13	General (Dom) Servant	Monmouthshire	Blaenavon		English
					Brown	Geo(rge)	Lodger	S	M	61	Labourer at Steel Works	London			English
					McCarthy	Daniel	Lodger	S	M	45	Tailor	London			English
					Jackson	Wm (=William)	Lodger	S	M	38	Tailor		Liverpool		English
					Fellows	Charles	Lodger	S	M	36	Tailor		Pudley	(ii) (=Blind)	English
					Williams	Geo(rge)	Lodger	S	M	60	Plasterer		Cheltenham		English
218	Prince Street	6	inhabited	3	Walby	Lewis	Lodger	S	M	68	Labourer at Iron Works	Breconshire			Both
					Rudge	Hy (=Henry)	Head	M	M	35	Engine Driver	Breconshire	Beaufort		English
					Rudge	Emma	Wife	M	F	30		Monmouthshire	Blaenavon		English
					Rudge	Thomas	Son	S	M	11	Scholar	Monmouthshire	Blaenavon		English
219	Prince Street	6	inhabited	3	Rudge	Cordelia	Daughter	S	F	8		Monmouthshire	Blaenavon		English
					Llewelyn	James	Head	M	M	64	Timberer Colliery	Glamorgan		Both	
					Llewelyn	Ann	Wife	M	F	60		Gloucestershire	Bristol		English
220	Prince Street	7	inhabited	3	Llewelyn	Kezia	Daughter	S	F	16		Monmouthshire	Blaenavon		English
					Daniel	Mary	Head	W	F	66		Monmouthshire	Blaenavon		Both
221	Prince Street	8	inhabited	3	Daniel	Wm (=William)	Son	S	M	30	Boiler Maker	Monmouthshire	Blaenavon		Both
					Waters	Hy (=Henry)	Head	M	M	35	Coal Miner	Monmouthshire	Blaenavon		English
					Waters	Mary A	Wife	M	F	33		Monmouthshire	Blaenavon		Both
					Waters	Sarah J	Daughter	S	F	12	Domestic Services	Monmouthshire	Blaenavon		English
					Waters	Rebekah	Daughter	S	F	11	Scholar	Monmouthshire	Blaenavon		English
					Waters	Wm (=William)	Son	S	M	8	Scholar	Monmouthshire	Blaenavon		English
					Waters	David Rd (=Richard)	Son	S	M	4	Scholar	Monmouthshire	Blaenavon		English
					Waters	Louisa	Daughter	S	F	3	Scholar	Monmouthshire	Blaenavon		English
222	Prince Street	9	inhabited		Waters	Florence	Daughter	S	F	on		Monmouthshire	Blaenavon		English
					Griffiths	John	Head	M	M	50	Sexton	Monmouthshire	Blaenavon		English
					Griffiths	Elieth (=Elizabeth)	Wife	M	F	39		Monmouthshire	Blaenavon		English
					Griffiths	Mary Jane	Daughter	S	F	10	Scholar	Monmouthshire	Blaenavon		English
223	Prince Street	10	inhabited	4	Griffiths	William J	Son	S	M	7	Scholar	Monmouthshire	Blaenavon		English
					Brewer	William	Head	M	M	35	Engine Fitter Iron Works	Monmouthshire	Abergavenny		English
					Brewer	Esther	Wife	M	F	45		Monmouthshire	Gardiffaith		English
					Brimson	Pollie	Step Daughter	S	F	19		Monmouthshire	Blaenavon		English
					James	Hannah	Sister in law	S	F	26		Monmouthshire	Blaenavon		Blind

Ar Garreg Eich Drws – Ffurflenni'r Cyfrifiad / Nodiadau i Athrawon

Trawsgrifiad o Gyfrifiad Saundersfoot 1891, 15-22 Railway Street

SCHEDULE	ROAD, ST etc	NO or NAME	HOUSES	No. of Rooms HKS	SURNAME	1ST NAME	RELATION TO	CONDITION	SEX	AGE	OCCUPATION	BORN	CITY/TOWN	1. Deaf & Dumb 2. Blind 3. Lunatic etc	LANGUAGE
15	Railway St	13	1		Read	Harry L	Head	M	M	40	Shipwright & Boat Builder	Berkshire	Reading		English
	Railway St				Read	Ada	Wife	M	F	42	Dressmaker before marriage	Pembrokeshire	Hill		English
	Railway St				Read	Elizabeth	Daur	S	F	19	Draper's assistant	Pembrokeshire	Saundersfoot		English
	Railway St				Read	Florence	Daur	S	F	18	Dressmaker	Pembrokeshire	Saundersfoot		English
	Railway St				Read	Eleanor	Daur	S	F	16	Telegraph & P.O. Clerk	Pembrokeshire	Saundersfoot		English
	Railway St				Read	Winnifred	Daur	S	F	14	Scholar	Pembrokeshire	Saundersfoot		English
	Railway St				Read	Gertrude	Daur	S	F	12	Scholar	Pembrokeshire	Saundersfoot		English
	Railway St				Read	Berkley	Son	S	M	9	Scholar	Pembrokeshire	Saundersfoot		English
	Railway St				Read	Reginald	Son	S	M	3		Pembrokeshire	Saundersfoot		English
16	Railway St	14	1		Rees	John	Head	M	M	55	Coal Miner	Pembrokeshire	St Issells		English
	Railway St				Rees	Catharine	Wife	M	F	55	Laundress	Pembrokeshire	Dale		Both
	Railway St				Rees	Margaret A.	Daur	S	F	25	Laundress' Assistant	Pembrokeshire	Saundersfoot		English
	Railway St				Rees	Thomas J.M.	Son	S	M	17	Grocer's Assistant	Pembrokeshire	Saundersfoot		English
17	Railway St	15	1		Owens	Thomas	Head	M	M	41	Labourer	Pembrokeshire	St Issells		English
	Railway St				Owens	Mary	Wife	M	F	40		Pembrokeshire	Amroth Parish		English
	Railway St				Owens	Margaret	Daur	S	F	14	Scholar	Pembrokeshire	Amroth Parish		English
	Railway St				Owens	Edith M.	Daur	S	F	11	Scholar	Pembrokeshire	Amroth Parish		English
	Railway St				Owens	Winnifred	Daur	S	F	6	Scholar	Pembrokeshire	Amroth Parish		English
	Railway St				Foster	Eugenie	Niece	S	F	8	Scholar	Pembrokeshire	Amroth Parish		English
18	Railway St	16	1	2	Jones	Rachel	Head	Widow	F	68	Labourer's Widow	Cardiganshire	Llandysul		Both
19	Railway St	17	1		Rees	Elizabeth	Head	Widow	F	62	Coal Miner's Widow	Pembrokeshire	Narberth		English
	Railway St				Davies	Charles	Son	S	M	22	Smith	Pembrokeshire	Saundersfoot		English
	Railway St				Davies	William	Nephew	S	M	9	Scholar	Pembrokeshire	Saundersfoot		English
20	Railway St	18	1		Rees	James	Head	M	M	77	Retired Farm Labourer	Pembrokeshire	Lampeter Velfry		Both
	Railway St				Rees	Mary	Wife	M	F	47		Pembrokeshire	Amroth		English
	Railway St				Rees	John J.	Son	S	M	7	Scholar	Pembrokeshire	St Issells		English
	Railway St				Rees	Mary A.	Daur	S	F	6	Scholar	Pembrokeshire	St Issells		English
21	Railway St	19	1		Shepherd	Clara	Head	Widow	F	57	Living on own means	Hertfordshire	Abbots Langley		English
22	Railway St	20	1		Graham	Thomas J.	Son	S	M	34	Seas Sailor	Pembrokeshire	St Issells		English

Rhagor o Wybodaeth – Archifdai Lleol

Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy lleol isod:

[Archifau Gwent](#) enquiries@gwentarchives.gov.uk Ffôn: 01495 353363

[Archifau Morgannwg](#) glamro@caerdydd.gov.uk Ffôn: 029 2087 2200

[Archifau Prifysgol Abertawe](#) archives@swansea.ac.uk Ffôn: 01792 295021

[Archifau Prifysgol Aberystwyth](#) archives@aber.ac.uk Ffôn: 01970 628593

[Archifau Prifysgol Bangor](#) archives@bangor.ac.uk Ffôn: 01248 382966

[Archifau Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant](#) rodericbownlibrary@tsd.ac.uk Ffôn: 01248 38296

[Archifau Ynys Môn](#) archifdy@ynysmon.gov.uk Ffôn: 01248 751930

[Archifdy Ceredigion](#) archives@ceredigion.gov.uk Ffôn: 01970 633697/633698

[Archifdy Cymdeithas Hynafiaethau Castell-nedd](#) westglam.archives@abertawe.gov.uk Ffôn: 01639 620139

[Archifdy Gwynedd, Meirionnydd](#) archifau.dolgellau@gwynedd.gov.uk Ffôn: 01341 424 682

[Archifdy Gwynedd, Caernarfon](#) archifau.caernarfon@gwynedd.gov.uk Ffôn: 01286 679095

Rhagor o Wybodaeth – Archifdai Lleol

Archifdy Sir Ddinbych archif@sirddinbych.gov.uk Ffôn: 01824 708250

Archifdy Sir Benfro record.office@pembrokeshire.gov.uk Ffôn: 01437 775456

Archifdy Sir y Fflint archives@siryfflint.gov.uk Ffôn: 01244 532364

Gwasanaeth Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam archives@wrecsam.gov.uk Ffôn 01978 297480

Gwasanaeth Archifau Conwy archifau.archives@conwy.gov.uk Ffôn 01492 577550

Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, Abertawe westglam.archives@abertawe.gov.uk Ffôn 01792 636589

Gwasanaeth Archifau Sir Gaerfyrddin archives@sirgar.gov.uk Ffôn: 01267 228232

Prifysgol Caerdydd, Casgliadau Arbennig ac Archifau keelanp@caerdydd.ac.uk Ffôn: 029 2087 5678

Swyddfa Archifau Sir Powys archives@powys.gov.uk Ffôn: 01597 826088

Gallwch ddod o hyd i ragor o adnoddau ar-lein, yn eich archifdy, eich swyddfa cofnodion a'ch amgueddfa leol.

Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy neu'ch swyddfa cofnodion leol yn www.archiveswales.org.uk/

Gallwch ddod o hyd i'ch amgueddfa leol yn www.culture24.org.uk/places+to+go/wales (Saesneg yn unig)

Llyfrgell Genedlaethol Cymru: www.llgc.org.uk/cy/

Casgliad y Werin Cymru: www.casgliadywerincymru.co.uk

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru: www.cbhc.gov.uk

Coflein: www.coflein.gov.uk